S.145

YR ADDFWYN LU.

Canwn gyda'r Athraw cu,
" Gwyn eu byd yr addfwyn lu :
Eiddynt hwy y ddaear fawr ":
Er pob dunos, tyr y wawr.

Byrdwn—Addfwyn ydyw Iesu Grist ;
Ef yw popeth enaid trist,—
Yr addfwynaf yn y byd ;
Eto, bïau'r byd i gyd.
Addfwyn galon, addfwyn air,
Addfwyn fywyd Mawrfab Mair,
Addfwyn " Aberth Pen y Bryn,"—
Pwy na chana byth am hyn ?
Addfwyn ydyw gwynt y De
Ddena'r Haf i wlad a thre',—
Addfwyn ydyw'r wawrwen dlos
Etifedda deyrnas nos.

Er mor ddistaw-fain eu llais,
Llais yr addfwyn wrendy Trais :
Er heb gnawdol arfau'r byd,
Etifeddant ef i gyd.
Nerthol yw milwriaeth ffydd :
Cariad Crist a gaiff y dydd ;
Rhaid i'r addfwyn gydag Ef
Etifeddu dae'r a Nef.
Arwr dewraf truan oes
Ydyw'r gwr a ddyco'i groes :
Ar Galfaria cariad drud
Fyth mae etifeddu'r byd.

Er i gas am lawer oes
Hoelio'r addfwyn ar ei groes,
Eto'r ddaear, yn ei bryd,
Etifedda : caned byd. Ifano.

X205 244 296